OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2440 (Cy.213)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Meddwl (Gwrthdrawiad Buddiannau) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*15 Medi 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*17 Medi 2008*
Yn dod i rym - -	*3 Tachwedd 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 12A o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a rhychwant

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Meddwl (Gwrthdrawiad Buddiannau) (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 3 Tachwedd 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "argymhelliad meddygol" ("*medical recommendation*") yw argymhelliad meddygol fel a grybwyllir yn adran 12(1) o'r Ddeddf at ddibenion cais;

ystyr "asesydd" ("*assessor*") yw—

(a) GPIMC sy'n ystyried gwneud cais, neu

(b) ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n ystyried rhoi argymhelliad meddygol;

ystyr "cais" ("*application*") yw cais a grybwyllir yn adran 11(1) o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Meddwl 1983(**2**);

ystyr "GPIMC" ("*AMHP*") yw gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy;

mae cyfeiriadau at "perthynas agosaf" ("*nearest relative*") yn cynnwys unrhyw berson a benodwyd am y tro i weithredu swyddogaethau'r perthynas agosaf yn rhinwedd gorchymyn

(**1**) 1983 p.20. Mewnosodwyd adran 12A gan adran 25(5) o Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau ar wahân i Loegr.
(**2**) 1983 p.20 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 p.12).

a wnaed o dan adran 29 o'r Ddeddf, rheoliad 33 o Reoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth, Triniaeth Gymunedol a Chydsynio â Thriniaeth) (Cymru) 2008 neu reoliad 24 o Reoliadau Iechyd Meddwl (Ysbyty, Gwarcheidiaeth a Thriniaeth) (Lloegr) 2008.

Gwrthdrawiad buddiannau posibl am resymau proffesiynol

3.—(1) Wrth ystyried claf, bydd gan asesydd wrthdrawiad buddiannau posibl—

(a) os yw'n gweithio o dan gyfarwyddyd un o'r aseswyr eraill sy'n ystyried y claf neu os yw'n gyflogedig gan un ohonynt;

(b) os yw'n aelod o dîm a drefnwyd i gydweithio at ddibenion clinigol yn rheolaidd a bod y ddau asesydd arall hefyd yn aelodau ohono.

(2) Pan fo perthynas agosaf claf yn gwneud cais, bydd gan asesydd wrthdrawiad buddiannau posibl—

(a) os yw'n gweithio o dan gyfarwyddyd perthynas agosaf y claf hwnnw neu os yw'n gyflogedig ganddo;

(b) os yw'n cyflogi perthynas agosaf y claf neu os yw'r perthynas agosaf yn gweithio dan ei gyfarwyddyd;

(c) os yw'n aelod o dîm a drefnwyd i gydweithio at ddibenion clinigol yn rheolaidd a bod y perthynas agosaf hefyd yn aelod ohono.

(3) Wrth ystyried claf, bydd gan asesydd wrthdrawiad buddiannau posibl—

(a) os yw'n gweithio o dan gyfarwyddyd y claf hwnnw neu os yw'n gyflogedig ganddo;

(b) os yw'n cyflogi'r claf neu os yw'r claf yn gweithio dan ei gyfarwyddyd;

(c) os yw'n aelod o dîm a drefnwyd i gydweithio at ddibenion clinigol yn rheolaidd a bod y claf hefyd yn aelod ohono.

Gwrthdrawiad buddiannau am resymau ariannol

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), bydd gan asesydd wrthdrawiad buddiannau posibl os yw, yn ddibynnol ar benderfyniad ganddo i wneud cais neu i roi argymhelliad meddygol neu beidio, ar dir i ennill yn ariannol.

(2) Pan fydd cais i glaf gael ei dderbyn i ysbyty nad yw'n sefydliad cofrestredig, caniateir i un (ond dim mwy nag un) o'r argymhellion meddygol gael ei roi gan ymarferydd meddygol cofrestredig sydd ar staff yr ysbyty hwnnw neu sy'n derbyn unrhyw daliadau a wnaed i gynnal a chadw'r claf neu sydd â buddiant yn eu derbyn.

(3) Pan fydd cais i glaf gael ei dderbyn i ysbyty sy'n sefydliad cofrestredig, ni chaniateir i unrhyw un o'r argymhellion meddygol gael ei roi gan ymarferydd meddygol cofrestredig sydd ar staff yr ysbyty hwnnw neu sy'n derbyn unrhyw daliadau a wnaed i gynnal a chadw'r claf neu sydd â buddiant yn eu derbyn.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn nid yw'r term "ennill ariannol" yn cynnwys unrhyw ffi a dalwyd i ymarferydd o ran archwilio claf yn unol ag adran 12 o'r Ddeddf neu o ran darparu unrhyw argymhelliad o ganlyniad i archwiliad o'r fath.

Gwrthdrawiad buddiannau posibl am resymau busnes

5.—(1) Wrth ystyried claf, bydd gan asesydd wrthdrawiad buddiannau posibl os yw'n ymwneud yn glòs yn yr un fenter fusnes ag asesydd arall, y claf neu berthynas agosaf y claf gan gynnwys bod yn bartner, yn gyfarwyddwr, yn swydd-ddeiliad arall neu'n gyfranddalwr sylweddol.